Cylchlythyr y Methodistiaid
Hydref 2024




# Gyda diolch

## Annwyl gyfeillion,

Gobeithio eich bod wedi cael blwyddyn dda eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn Gweithredu dros Blant wrth i ni barhau i helpu cynifer o blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed ag y gallwn.

Fe wnaethom lansio ‘Faith Space’ – cyfarfod ar-lein ar gyfer Methodistiaid a chefnogwyr eglwysi eraill i glywed diweddariadau gan Gweithredu dros Blant, a chysylltu ag eglwysi, cymunedau ac unigolion eraill. Mae’n lle i’r grŵp arbennig hwn o gefnogwyr ysbrydoli ei gilydd a chryfhau ein cysylltiad i’n helpu i greu plentyndod mwy diogel a hapus.

Ym mis Medi lansiwyd ein hymgyrch Lle i Alw’n Gartref, gan alw ar lywodraethau’r DU i weithredu ar unwaith i ddiwygio gofal cymdeithasol i blant. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn y tudalennau canlynol.

Gyda chynlluniau’n debygol o fod ar y gweill ar gyfer y Nadolig yn eich eglwys, rydyn ni wedi cynnwys cynllun ar gyfer addoli i chi ei ddefnyddio yn eich gwasanaethau Nadolig. Gobeithio ei fod yn ddefnyddiol i chi wrth gynllunio eich tymor addoli arbennig.

Ac mae ein hymgyrch Secret Santa yn dychwelyd ar gyfer 2024 i helpu plant agored i niwed i deimlo bwrlwm y Nadolig. Mae’n hawdd meddwl bod tlodi’n digwydd mewn mannau eraill. Ond mae’n effeithio ar blant yn eich cymuned. I lawer o blant, dim ond diwrnod arall o gypyrddau gwag yw’r Nadolig – gorfod gwisgo siwmper ychwanegol i gadw’n gynnes a meddwl tybed pam na chawson nhw anrhegion fel eu ffrindiau.

Drwy roi, gallech chi ddarparu’r hanfodion fel dillad cynnes, pryd poeth neu anrheg arbennig i blentyn agored i niwed. Byddan nhw’n gwybod bod Siôn Corn wedi cofio amdanyn nhw – ond fyddan nhw ddim yn gwybod mai chi ydy Siôn Corn.

Diolch o galon i chi am yr holl ffyrdd anhygoel rydych chi’n cefnogi Gweithredu dros Blant. Dymunwn Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd.

**Katie Cartwright**
Pennaeth Perthnasoedd Codi Arian

**Karis Kolawole**
Arweinydd Partneriaethau Ffydd

## Ymunwch â'n 'Faith Space'

Rydyn ni wedi lansio 'Faith Space' Gweithredu dros Blant – cyfarfod ar-lein sy'n cael ei gynnal bob chwarter ar gyfer ein cefnogwyr ffydd o'r gymuned Fethodistaidd ac eglwysi eraill. Mae'r gofod hwn yn darparu lle ac amser arbennig i'n cefnogwyr ffydd anhygoel glywed mwy am y gwahaniaeth enfawr maen nhw'n ei wneud, a meithrin cysylltiadau ysbrydoledig ag eraill.

Drwy ymuno â Faith Space, byddwch yn clywed y newyddion diweddaraf gennym am ein staff rheng flaen brwdfrydig, a'r plant anhygoel rydyn ni'n eu cefnogi. Byddwch yn clywed mwy am sut i gymryd rhan, a byddwch yn cysylltu ac yn ysbrydoli eich gilydd – i gyd i helpu i greu plentyndod mwy diogel a hapus.

Byddem wrth ein bodd petaech yn ymuno â ni. Cofrestrwch yma: **forms.office.com/e/y2701CkN5e**

## Y Chwaer Eluned Williams – cofio bywyd chwaer ymroddedig i helpu plant



Roedd y Chwaer Eluned Williams MBE, a fu farw eleni, yn un o'n 'Chwiorydd y Plant' diwethaf a gafodd ei hordeinio'n Fethodist.

Cafodd Chwiorydd y National Children's Home (NCH) ei sefydlu ym 1878, ar gyfer menywod o oedd yn ymroddedig i ofalu am blant yn y cartrefi yr oeddent yn eu rhedeg. Ymhen amser, daeth NCH yn Gweithredu dros Blant.

Yn ystod ei gyrfa, roedd wedi ymroi i helpu plant a bu'n llysgennad brwd dros Gweithredu dros Blant drwy gydol ei hoes. Rydyn ni mor ddiolchgar am y gwahaniaeth anhygoel a wnaeth y Chwaer Eluned.

# Ein sêr Methodistaidd

**Diolch i chi unwaith eto am flwyddyn arall o godi arian anhygoel. Dyma rai enghreifftiau ...**



Cynhaliodd **Cylchdaith Fethodistaidd Huddersfield** eu taith gerdded noddedig flynyddol, gyda 38 o gerddwyr yn dilyn llwybr pum milltir ar hyd camlas gul Huddersfield. Fe wnaethon nhw godi'r swm anhygoel o £2,600. Diolch i bawb a gymerodd ran.



Cynhaliwyd noson hyfryd o 'Brydferthwch Blodeuol' gan Grŵp **Cefnogi Methodistaidd Salisbury**, gydag arddangosiad blodeuol, straeon, cerddoriaeth a lliw – i gyd yn codi £766. Am syniad ysbrydoledig ar gyfer codi arian!



Cynhaliodd **Grŵp Cefnogi Plymouth** daith gerdded 'Step Out for Children', ac er gwaethaf y tywydd erchyll, fe wnaethon lwyddo i godi'r swm anhygoel o £1,400! Dyma'r trefnydd, Sylvia Hamley, yn barod i wynebu'r elfennau!

Diolch i **Eglwys Fethodistaidd Bromsgrove** am eu digwyddiad diweddar yn cynnwys te hufen mefus a gweithgareddau eraill. Fe wnaethon nhw godi'r swm anhygoel o £2,585.



Dathlodd **Doreen Lovett** ei phen-blwydd yn 90 oed gyda pharti yn yr eglwys ar gyfer ffrindiau a theulu. Bu côr yr eglwys yn diddanu pawb gyda chaneuon a ddewiswyd gan Doreen, ac yna cafodd pawb de parti gwych gyda llawer o hwyl a chwerthin. Yn lle anrhegion, gofynnodd Doreen am roddion i Gweithredu dros Blant ac roedd wrth ei bodd gyda'r canlyniad, sef codi £553.75 anhygoel!



Ym mis Gorffennaf, bu aelodau **Eglwys Fethodistaidd Manceinion a Stockport** gynnal eu gweithgaredd casglu arian mewn bwced blynyddol yng ngorsaf drenau Macclesfield, gan godi £166. Dywedodd Steve Oliver – Eiriolwr Ardal dros Fanceinion a Stockport, a threfnydd y digwyddiad, "Fe wnaeth y casglwyr yn dda iawn – gan weithio o 7am tan 7pm a gwenu drwy'r dydd."



Cynhaliodd **Grŵp Cefnogi Redhill a Reigate** ddigwyddiad gardd a bore coffi ar 22 Mehefin gan godi £385 i gefnogi Gweithredu dros Blant.

**Cynllunio eich digwyddiad codi arian nesaf? Rydyn ni yma i helpu! Edrychwch ar y daflen gyswllt sydd yn y pecyn hwn, a chysylltwch â ni.**

# Be a Secret Santa

## for a vulnerable child



**Mae bwrlwm y Nadolig yn dechrau yn ystod plentyndod. Gadael hosan allan. Rhannu bwydydd Nadoligaidd. Anrhegion o dan y goeden. Mae'n amser i blant deimlo eu bod yn cael eu caru a chreu atgofion sy'n para am oes.**

Ond, i blant agored i niwed ar draws y DU dydy'r Nadolig ddim yn hudolus o bell ffordd. Dim hosan. Dim anrhegion. Dim bwydydd Nadoligaidd – efallai dim bwyd o gwbl. Gallai rhai o'u hatgofion cyntaf o'r Nadolig gynnwys mynd i'r gwely'n llwglyd, bod yn rhy oer i gysgu a cholli pob gobaith pan nad yw Siôn Corn yn dod.

Ond gallech chi helpu i newid hynny. Gallai eich anrheg chi helpu plentyn agored i niwed i deimlo bwrlwm y Nadolig.

Mae Lorraine, un o weithwyr cymorth Gweithredu dros Blant yn Swydd Gaerwrangon, yn ymwybodol iawn o ba mor galed yw tymor yr ŵyl i'r teuluoedd y mae hi'n eu cefnogi.

"Mae'r Nadolig i fod yr adeg fwyaf hyfryd o'r flwyddyn, ond i lawer o'n teuluoedd, dyma'r adeg waethaf. Mae llawer wedi cyrraedd pen eu tennyn. Mae'r cynnydd parhaol mewn costau byw yn golygu bod teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio'r pethau sylfaenol, ac mae anrhegion neu ginio Nadolig allan o'u cyrraedd. Mae'n dorcalonnus."

Dyna pam mae Lorraine a'i thîm yn cynnal Groto Siôn Corn ar gyfer cannoedd o blant lleol bob Nadolig.

"Mae'r plant yn cwrdd â Siôn Corn ac yn cael dewis unrhyw anrheg maen nhw'n ei hoffi. Mae wynebau'r plant pan fyddan nhw'n sylweddoli y gallan nhw ddewis anrheg yn hudolus. Maen nhw'n edrych arnoch yn methu coelio, gan ddweud, "alla i wir gael unrhyw beth?" Mae'r rhieni'n dweud wrthym fod eu plant yn edrych ymlaen at y groto – dyma uchafbwynt eu Nadolig."

I deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ac sy'n methu cyrraedd groto'r Nadolig gyda'u plant, mae Lorraine a'i thîm yn trefnu bagiau o anrhegion a gemau i'w danfon i'w cartrefi. Maen nhw hefyd yn cynnwys papur lapio, er mwyn i'r rhieni allu lapio'r anrhegion ac ychwanegu tag i ddweud bod yr anrhegion ganddyn nhw neu Siôn Corn.

"Mae'n golygu eu bod nhw'n rhan o rannu'r anrhegion a'u bod yn teimlo ysbryd y Nadolig. Rydyn ni hefyd yn rhoi gêm fwrdd i bob teulu er mwyn iddyn nhw gael hwyl gyda'i gilydd."

Mae plentyndod yn fyr. Mae'r amser i greu atgofion hudolus yn brin. Dyna pam mae arnom angen eich cefnogaeth chi nawr.

Rhowch arian i'n hymgyrch Secret Santa a gallech fod yn cefnogi gwasanaethau hanfodol fel un Lorraine. Gallai £5 brynu tedi bach i gysuro plentyn. Gallai £40 dalu am frecwast, cinio, byrbrydau a chinio poeth i blentyn am wythnos. Bydd y plentyn yn gwybod bod Siôn Corn wedi cofio amdanyn nhw – ond fyddan nhw ddim yn gwybod mai chi ydy Siôn Corn.



**Byddwch yn Secret Santa, a gallech chi helpu plentyn agored i niwed i deimlo bwrlwm y Nadolig.**

Rhagor o Wybodaeth:
**iamsanta.org.uk** →

# Lle i'w Alw'n Gartref

**Drwy gydol mis Medi, rydyn ni wedi bod yn cynnal ein hymgyrch *Lle i'w Alw'n Gartref*, gan alw ar lywodraethau'r DU i ymrwymo i roi'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i blant mewn gofal.**



Bob 15 munud mae plentyn yn mynd i ofal yn y DU.

Maen nhw eisoes wedi wynebu heriau enfawr yn eu bywydau ifanc. Nid yw unrhyw blentyn yn haeddu'r heriau hyn. A nawr eu bod mewn gofal, mae'r byd yn eu gweld yn wahanol.

Dydy hynny ddim yn iawn.

Oherwydd plant ydy nhw, fel unrhyw blant eraill. Plant sy'n haeddu teimlo'n ddiogel a chael eu caru, mewn lle y gallan nhw eu galw'n gartref.

Dyna pam mae ein hymgyrch yn galw ar lywodraethau'r DU i weithredu ar unwaith ar ofal cymdeithasol i blant, er mwyn i blant mewn gofal gael y cartrefi, y cariad a'r gefnogaeth o ansawdd uchel sydd arnyn nhw eu hangen i ffynnu.

Mae ein hadroddiad Lle i Alw'n Gartref yn tynnu sylw at yr hyn mae cartref yn ei olygu i blant mewn gofal, a beth sydd angen ei newid i wneud yn siŵr bod mwy o blant yn cael y teimlad hwnnw o berthyn, hapusrwydd a chariad.

Gwnaethom ni godi ymwybyddiaeth a rhannu'r neges ar y strydoedd drwy fynd â model o dŷ bach ein hunain gyda ni! Roedd y tŷ wedi'i orchuddio a theimladau mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi rhannu â ni.

Gallwch ddarllen mwy am yr ymgyrch a sut gallwch chi gefnogi, yma: **actionforchildren.uk/APlaceToCallHome**

## Y *gwahaniaeth* rydych chi wedi'i wneud

**Yn 2023/24 fe wnaethon ni helpu...**

687,755

o blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy **372** o wasanaethau ledled y DU.

Ac mae eich cefnogaeth anhygoel wedi helpu i godi **£17.2 miliwn** sy'n newid bywydau.

### Ble bydd eich arian yn mynd

Yn **2023/24 defnyddiwyd 85c o bob £1** i greu plentyndod hapus a diogel. Buddsoddwyd gweddill yr arian mewn costau codi arian a chostau gweinyddol i redeg yr elusen.

**Am bob £1 rydyn ni'n ei gwario:**

Mae **85c** yn helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**4c** ar godi arian.

**11c** ar y gwaith gweinyddol.



## Cadw mewn cysylltiad

Fel cefnogwr gwerthfawr, byddem wrth ein bodd yn anfon diweddariadau rheolaidd atoch am ein gwaith – gan gynnwys straeon o'r galon, digwyddiadau cyffrous, a gwybodaeth am sut gallwch barhau i gefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed yn y DU.

Gallwch newid eich dewisiadau unrhyw bryd drwy ffonio **0300 123 2112** neu anfon e-bost at **ask.us@actionforchildren.org.uk**. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data'n ddiogel, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd yn **actionforchildren.org.uk/privacy**.

Action for Children-Gweithredu dros Blant, sydd wedi'i gofrestru yn 3 The Boulevard, Ascot Road, Watford WD18 8AG a'i gofrestru fel cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr o dan rif 04764232. Rhifau cofrestru'r elusen 1097940/SC038092. © Gweithredu dros Blant 2024. ACT0176.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR